**Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant**
**Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro**
**Adolygiad Ymarfer Plant Cryno**
**Parthed: AYP 05/2018**

## Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at yr Adolygiad

*I'w cynnwys yma:*

- *Y cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau ar yr adolygiad dan sylw*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser sy'n destun yr adolygiad a phaham*
- *Amserlen gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Comisiynwyd adolygiad ymarfer plant estynedig gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg yn sgil argymhelliad yr Is-grwp Adolygu Achosion yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion/Plant Amlasiantaethol. Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u pennu dan adran 6.1 y Canllaw a nodwyd uchod:

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant cryno yn unrhyw un o'r achosion canlynol lle, o fewn ardal y Bwrdd, gwyddys am gam-drin neu esgeuluso plentyn neu amheuir bod hyn yn digwydd ac mae'r plentyn

- Wedi marw; neu
- Wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- Wedi cael anaf difrifol a pharhaol sy'n effeithio ar ei iechyd neu ei ddatblygiad

Ac

- Nad oedd y plentyn ar y gofrestr diogelu plant nac yn blentyn oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn
- dyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod, neu'r
- dyddiad y mae awdurdod lleol neu'r partner perthnasol yn nodi bod y plentyn wedi dioddef anaf difrifol a pharhaol sy'n effeithio ar ei iechyd a'i ddatblygiad.

Ar gyfer yr adolygiad cryno hwn, cytunodd Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fod y meini prawf yn cael eu bodloni mewn perthynas ag amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd neu ddatblygiad.

Diben Adolygiad Ymarfer Plant yw nodi dysgu amlasiantaethol ar gyfer ymarfer yn y dyfodol ac mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar yr ymarfer a'r dysgu sefydliadol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ymarfer a'r dysgu sefydliadol yn dilyn digwyddiad lle cafodd y plant eu symud o'u prif ofalwr yr oeddent yn byw gyda nhw tra oeddent yn ddarostyngedig i orchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried gwybodaeth hanesyddol berthnasol am flynyddoedd cynnar y plant ac achosion blaenorol o'u symud oddi wrth eu rhieni biolegol.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion, a ryddhawyd ym mis Awst 2019, mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi golygu'r rhannau o'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn sy'n disgrifio manylion yr achos.

**Aelodaeth y Panel**

Roedd cynrychiolaeth dda gan asiantaethau ar y panel. Roedd y panel yn cynnwys:

- Tai a Chymunedau, Cyngor Caerdydd
- Heddlu De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Addysg, Cyngor Caerdydd
- Gwasanaethau Plant, Cyngor Caerdydd
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Cefnogwyd y panel gan gynrychiolydd cyfreithiol y Bwrdd Diogelu.

Y Digwyddiad Dysgu

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu rhithwir dros gyfnod o ddau ddiwrnod oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ar bresenoldeb yn y gweithle.

Yn bresennol yn y digwyddiad roedd:

- Addysg (gan gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd)
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Plant, Cyngor Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
- Tai a Chymunedau, Cyngor Caerdydd
- Barnardo’s
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Snap Cymru

## Ymarfer a dysgu sefydliadol

*Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy’n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys tynnu sylw at ymarfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o’r amgylchiadau perthnasol.*

Mae nodi’r ymarfer a'r dysgu sefydliadol wedi'i sicrhau trwy:

- Greu llinell amser gyfunol
- Digwyddiad Dysgu
- Trafodaeth yng nghyfarfodydd paneli
- Crynodebau Hanesyddol Asiantaethau
- Dadansoddi gan Adolygwyr
- Safbwyntiau Plentyn A a Phlentyn B

Diben y dysgu yw gwella ymarfer yn y dyfodol a sicrhau cadernid ein gwasanaethau wrth amddiffyn plant rhag esgeulustod, niwed a chamdriniaeth.

**Mae Diogelu’n Gyfrifoldeb i Bawb**

Mae'r digwyddiad dysgu a'r wybodaeth a geir yn yr amserlen yn nodi nad oedd unrhyw atgyfeiriadau neu bryderon ynglŷn â diogelu wedi'u gwneud na'u nodi. Ymddengys nad oedd llawer o ddealltwriaeth na gwybodaeth gan y staff hynny am y cam-drin a'r esgeulustod yr oedd y plant yn eu profi.

**Pwynt Dysgu**

**Mae'n bwysig bod ymarferwyr, ni waeth beth fo'u rôl, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gwybod sut i adrodd am bryderon, datgeliadau neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu ac ymateb iddynt a'u cofnodi. Dylai hyn gael ei gefnogi ymhellach gan ymwybyddiaeth o arwyddion a dangosyddion o gam-drin ac esgeulustod.**

**Addysg Gartref/Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Roedd gan Blentyn A a Phlentyn B ddatganiad addysgol ac nid oedd y naill na'r llall yn mynychu darpariaeth addysgol ar ôl bod yn yr ysgol gynradd.

Daeth Plentyn A yn anweledig i'r gwasanaethau pan adawodd yr ysgol gynradd. Er ei bod ar y gofrestr ar gyfer ysgol gyfun leol, ni dderbyniwyd ceisiadau addysg gartref tan ar ôl o leiaf 18 mis o'i habsenoldeb, ac roedd hyn o ganlyniad i drefniadau ar gyfer ei brawd/chwaer iau yn cael eu trafod ar y pryd. Nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer adolygu'r datganiad addysgol nac eglurder o beth oedd y trefniadau addysg gartref.

Pontiodd Plentyn B i'r Ysgol Uwchradd gydag adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal i lywio'r trefniadau hyn. Fodd bynnag, er gwaethaf trefniadau cludiant a chymorth yn cael eu rhoi ar waith, daeth Plentyn B yn destun trefniadau addysg gartref yn y pen draw. Trafodwyd darpariaethau amgen fel tiwtora neu leoliadau amgen ond ni chawsant eu ffurfioli.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gan y prif ofalwr y gallu i gefnogi'r trefniadau addysg gartref. Roedd wedi'i ddogfennu'n dda bod y fodryb yn cael trafferth rheoli ymddygiad y plant. Mae'n hysbys bod ymdrechion wedi'u gwneud i Blentyn A dderbyn darpariaeth amgen, ond ni chafodd y rhain eu ffurfioli.

Felly, crëwyd sefyllfa lle nad oedd y naill blentyn na'r llall yn derbyn unrhyw addysg ffurfiol ac nad oedd trefniadau addysg gartref yn cael eu hadolygu na'u monitro. Gan fod yr ysgol gynradd wedi ymwneud yn helaeth â'u haddysg yn y gorffennol, roedd yn hysbys bod angen lefel uchel o gymorth ar y plant ac nad oedd y fodryb yn gallu darparu hyn.

Yn 2025, mae Awdurdod Lleol Caerdydd yn treialu darpariaeth addysgol bwrpasol mewn ysgol uwchradd leol i gefnogi gweithgareddau cwricwlwm a chyfoethogi i ddysgwyr. Penodwyd athro dynodedig i weithio gyda rhai teuluoedd i gyfeirio'r plant i archwilio'r opsiynau a'r buddion o aros yn yr ysgol. Mae gweithgareddau pontio gwell hefyd wedi'u cynllunio i annog dysgwyr ym mlynyddoedd 4, 5 a 6 i bontio i'r ysgol uwchradd.

Er bod Awdurdod Lleol Caerdydd yn hyderus bod eu prosesau lleol yn glir ac yn gadarn, mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau o fewn canllawiau presennol Llywodraeth Cymru ac nid yw bob amser yn bosibl darparu cyfleoedd i weld plant wrth adolygu trefniadau Addysg Ddewisol yn y Cartref.

**Pwynt Dysgu**

**Dylai'r monitro o Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC) ar gyfer pob plentyn fod yn drylwyr ac yn gyson. Dylid rhoi gwybod am unrhyw faterion diogelu a nodwyd ar gyfer plant sy'n derbyn ADdC. Nid oedd y cyfle i ddiogelu ymatebion i'r plant hyn neu gyfle iddynt siarad â rhywun y tu allan i'w lleoliad teuluol ar gael gan eu bod wedi'u cynnwys i raddau helaeth yn eu hamgylchedd cartref heb fawr ddim cyswllt proffesiynol.**

Effaith Gwahaniaethau Diwylliannol ac Ymatebion Gweithwyr Proffesiynol

Roedd achosion lle roedd gweithwyr proffesiynol yn ofni dial a goblygiadau ar ôl gwneud adroddiadau. Rhannwyd y rhain trwy aelodau'r panel a hefyd o fewn y Digwyddiad Dysgu.

Roedd trefniadau ymweld ar gyfer rhai asiantaethau wedi cael eu tynnu'n ôl am gyfnod yn dilyn digwyddiad. Daeth yn amlwg nad oedd hyn wedi bod yn ddull partneriaeth cydlynol a'i fod wedi arwain at wahanol ddulliau yn cael eu defnyddio i reoli risg ar gyfer staff a gwybodaeth anghyson am asesiadau risg/rheoli risg a oedd yn amrywio ar draws asiantaethau.

Cafwyd tystiolaeth o hyn hefyd trwy adroddiadau diogelu a wnaed lle mynegodd unigolion eu dymuniad i aros yn ddienw oherwydd ofn dial. Er y dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi diogelwch a hyder gweithwyr proffesiynol sy'n gwneud adroddiadau, ni ddylai hyn atal cymryd camau a chyflawni dyletswyddau diogelu.

**Pwynt Dysgu**

**Ni waeth beth yw amgylchiadau'r teulu; ble mae plant yn byw neu eu cyd-destun diwylliannol, mae'r angen i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod yr un mor bwysig i bawb. Mae'n amlwg bod nifer o ffactorau yn cyfyngu ar y cyfle i gefnogi a diogelu'r plant hyn.**

**<u>Effaith Trawma Plentyndod Cynnar</u>**

Roedd y ddau blentyn wedi profi trawma cynnar mewn perthynas â rhianta anghyson, esgeulus a chamdriniol. O ganlyniad i hyn cawsant eu symud o ofal eu rhieni a'u lleoli gyda'u modryb, fel mesur dros dro i ddechrau, ond cafodd hyn wedyn ei ffurfioli a daeth yn ddarostyngedig i Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

Roedd y plant yn adnabyddus i CAMHS ac yn arddangos ymddygiadau y gellid eu priodoli i'w profiadau cynnar. Gweithiodd CAMHS gydag addysg ac roeddent yn rhan o'u proses adolygu flynyddol. Roedd nifer o atgyfeiriadau i wasanaethau plant a oedd yn nodi na ellid priodoli'r heriau emosiynol a seicolegol i brofiadau yn y gorffennol yn unig a bod pryderon cymdeithasol/amgylcheddol yr oedd angen eu harchwilio. Nid oedd yr atgyfeiriadau hyn yn arwain at asesiad gan y gwasanaethau plant ac nid oedd cyfleoedd ar gyfer asesiad cyfannol gyda mewnbwn amlasiantaethol.

**Pwynt Dysgu**

**Roedd yr heriau a'r problemau o ran y plant a'u hymddygiad yn cael eu nodi gan eu modryb, a oedd yn gwadu unrhyw gyfrifoldeb o safbwynt rhianta. Nid oedd unrhyw arwydd o'r sefyllfa o safbwynt y plant a dim achlysuron dogfennol lle siaradwyd â phlant ar eu pennau eu hunain neu i ffwrdd o'u modryb neu'r amgylchedd lle roedden nhw'n byw.**

**<u>Trefniadau Gwarcheidiaeth Arbennig</u>**

Y fodryb oedd y gwarcheidwad arbennig ar gyfer y ddau blentyn ac roedd honiadau o'r cam-drin a'r esgeulustod a brofodd y plant yn cael eu priodoli iddi hi ac aelodau eraill o'r teulu.

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried yr holl atgyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaethau plant yn ystod y cyfnod adolygu. Gwnaed nifer o atgyfeiriadau a oedd yn nodi bod pryderon am allu'r fodryb i ddarparu gofal priodol i'r plant, ei bod hi'n caniatáu i fam y plant gael cysylltiad â nhw a byw gyda nhw, a bod atgyfeiriadau dienw wedi cael eu derbyn am ei thriniaeth o'r plant ac yn dilyn yr adroddiad terfynol, cafodd y plant eu symud oddi wrth eu modryb.

Nid oedd unrhyw fonitro blynyddol wedi'i gofnodi o'r trefniadau ac nid oedd yn ymddangos bod unrhyw gynllun cymorth gwarcheidiaeth arbennig ar waith. Tra oedd y fodryb yn derbyn lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, nid oedd unrhyw gymorth na monitro ychwanegol ar waith yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Nid oedd addasrwydd y trefniant na gallu'r modryb i ddiwallu anghenion y plant a darparu gofal yn cael ei ailasesu ar unrhyw adeg, er gwaethaf yr atgyfeiriadau/adroddiadau a dderbyniwyd.

**Pwynt Dysgu**
**Nid oedd digon o fonitro trefniadau'r gwarcheidiaeth arbennig heb unrhyw dystiolaeth o adolygiad nac ystyriaethau o addasrwydd parhaus y trefniadau hyn. Cydnabyddir y bu newid yn y gofynion statudol mewn perthynas â monitro ac adolygu trefniadau gwarcheidiaeth arbennig.**

**<u>Ymarfer Effeithiol/Da wedi'i Nodi</u>**

Nododd y panel adolygu dystiolaeth o rywfaint o ymarfer effeithiol a da fel a ganlyn:

- Ymdrechion parhaus y Pennaeth i wneud atgyfeiriadau a cheisio cymorth a chyngor.
- Ymateb amserol a chydlynol asiantaethau a ymatebodd i'r adroddiad dienw yn 2018 gan arwain at symud y plant.
- Cyflwynwyd adroddiad Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol fel ymateb i'r ymchwiliad amddiffyn plant i gamfanteisio/caethwasiaeth fodern (caethwasiaeth ddomestig).
- Roedd gwelliannau i rannu gwybodaeth yn amlwg a oedd yn galluogi cymryd camau cadarnhaol. Rhoddwyd pwys i'r ffynhonnell atgyfeirio nad oedd wedi bod yn amlwg mewn canlyniadau atgyfeirio blaenorol.
- Gwybodaeth a rennir â'r ymwelydd iechyd.

Ers amser y digwyddiad a ystyriwyd yn yr adolygiad hwn, cydnabyddir bod newidiadau wedi'u gwneud o fewn asiantaethau unigol a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn yr argymhellion a'r camau gweithredu a wneir.

## Gwella Systemau ac Ymarfer

*Er mwyn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn, nodwyd yn yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y BDPRh a'i aelod-asiantaethau a'r canlyniadau gwella disgwyliedig:*

(Yr hyn y mae angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol a sut bydd hyn yn gwella ymarfer a systemau sy'n cynorthwyo ymarfer yn y dyfodol)

**Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb.**

**Pwynt Dysgu**
Mae'n bwysig bod ymarferwyr, ni waeth beth fo'u rôl, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gwybod sut i adrodd am bryderon, datgeliadau neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu ac ymateb iddynt a'u cofnodi. Dylai hyn gael ei gefnogi ymhellach gan ymwybyddiaeth o arwyddion a dangosyddion o gam-drin ac esgeulustod.

**Argymhelliad**

1. Dylai Awdurdod Lleol Caerdydd adolygu ac archwilio'r hyfforddiant diogelu a ddarperir i staff lle gall fod rhwystrau tebyg i adrodd am bryderon er mwyn sicrhau bod gan ymarferwyr yr wybodaeth, y sgiliau, yr hyder a'r ddealltwriaeth i adnabod ac adrodd am gamdriniaeth, niwed ac esgeulustod a deall eu cyfrifoldebau i adrodd am bryderon.

**Gwahaniaethau Diwylliannol ac Ymatebion Gweithwyr Proffesiynol**

**Pwynt Dysgu**
Ni waeth ble mae plant yn byw neu beth yw eu cyd-destun diwylliannol, mae'r angen i sicrhau amddiffyniad rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod yr un mor bwysig i bawb. Mae'n amlwg bod nifer o ffactorau yn cyfyngu ar y cyfle i gefnogi a diogelu'r plant hyn.

Ymddengys fod yr heriau, y rhwystrau a'r risgiau canfyddedig iddynt eu hunain wedi dylanwadu ar ymatebion gweithwyr proffesiynol, oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol. Mae angen sicrhau bod ymatebion a chamau diogelu cyson yn cael eu cymryd ni waeth beth fo'r cyd-destun diwylliannol a'r amgylchedd.

**Argymhelliad**

2. Rhaid i Awdurdod Lleol Caerdydd sicrhau bod cymorth ar waith i ymarferwyr sy'n gweithio mewn amgylcheddau lle mae rhwystrau i adrodd am bryderon ac annog y defnydd o arweinwyr cymunedol a chysylltwyr cymunedol i gefnogi'r broses adrodd.

3. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd weithio gyda'i gilydd i ddeall beth yw'r trefniadau a'r heriau presennol wrth weithio gyda theuluoedd.

**Addysg Ddewisol yn y Cartref**

**Pwynt Dysgu**
Dylai'r monitro o Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC) ar gyfer pob plentyn fod yn drylwyr ac yn gyson. Dylid rhoi gwybod am unrhyw faterion diogelu a nodwyd ar gyfer plant sy'n derbyn ADdC. Nid oedd y cyfle i ddiogelu ymatebion i'r plant hyn neu gyfle iddynt siarad â rhywun y tu allan i'w lleoliad teuluol ar gael gan eu bod wedi'u cynnwys i raddau helaeth yn eu hamgylchedd cartref heb fawr ddim cyswllt proffesiynol.

**Argymhelliad**

4. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau a'r ymarfer cyfredol ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref i sicrhau ei fod yn ystyried sut mae pryderon diogelu yn cael eu hadrodd a'u huwchgyfeirio ar gyfer plant sy'n destun Addysg Ddewisol yn y Cartref. Dylai'r adolygiad o'r Canllawiau ystyried pa mor gadarn yw'r gofynion monitro, neu dylen nhw fod, i gefnogi'r gallu i nodi ac ymateb i faterion diogelu.

5. Dylai'r Bwrdd Diogelu sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â phlant ADdC yn y rhanbarth yn drylwyr ac yn cynnwys rhwystrau a gwrthbwysau i sicrhau bod yr holl drefniadau'n addas i'r diben a bod cyfleoedd i adolygu a monitro'r trefniadau hyn ar waith.

**Effaith a dealltwriaeth o drawma plentyndod cynnar**

**Pwynt Dysgu**
Roedd yr heriau a'r problemau o ran y plant a'u hymddygiad yn cael eu nodi gan eu modryb, a oedd yn gwadu unrhyw gyfrifoldeb o safbwynt rhianta. Nid oedd unrhyw arwydd o'r sefyllfa o safbwynt y plant a dim achlysuron dogfennol lle siaradwyd â phlant ar eu pennau eu hunain neu i ffwrdd o'u modryb neu'r amgylchedd lle roedden nhw'n byw.

**Argymhelliad**

6. Dylid mabwysiadu dulliau ac ymarfer sy'n seiliedig ar drawma ar draws asiantaethau fel bod ymarferwyr yn deall effaith profiadau plentyndod cynnar o esgeulustod a cham-drin ac yn ymwybodol o sut y gellir arsylwi ar hyn yn eu hymddygiad. Dylai profiadau bywyd plant gael eu cofnodi a'u deall gan weithwyr proffesiynol.

**Trefniadau Gwarcheidiaeth Arbennig**

**Pwynt Dysgu**
Roedd y plant yn destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig i aelod o'r teulu yn y cyfnod cyn y digwyddiad a ystyriwyd yn yr adolygiad hwn. Nid oedd digon o fonitro trefniadau'r gwarcheidiaeth arbennig hyn a dim tystiolaeth o adolygu nac ystyried addasrwydd parhaus y trefniadau hyn. Cydnabyddir y bu newid yn y gofynion statudol mewn perthynas â monitro ac adolygu trefniadau gwarcheidiaeth arbennig.

**Argymhelliad**

7. Dylai'r Bwrdd Diogelu dderbyn sicrwydd, pan fo adroddiadau diogelu yn cael eu gwneud mewn perthynas â phlant sy'n ddarostyngedig i drefniadau gwarcheidiaeth arbennig, bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol yn deall ac yn ymateb i'r adroddiadau hyn yn briodol ac yn cofnodi'r rhesymeg a'r penderfyniadau sy'n gwneud penderfyniadau o ran ymateb diogelu.

8. Dylai'r Bwrdd Diogelu dderbyn sicrwydd bod trefniadau monitro ac adolygu Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar waith ac yn cael eu dilyn.

## Y Broses Adolygu Ymarfer Plant

*I gynnwys yn gryno yma:*

- *Y broses a ddilynodd y Bwrdd Diogelu Plant a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a fu'n bresennol*
- *Hysbyswyd aelodau'r teulu, ceisiwyd eu barn a chawsant eu cynrychioli trwy'r digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt*

**Aelodaeth y Panel**
Roedd cynrychiolaeth dda gan asiantaethau ar y panel. Roedd y panel yn cynnwys:

- Tai a Chymunedau, Cyngor Caerdydd
- Heddlu De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaethau Addysg, Cyngor Caerdydd
- Gwasanaethau Plant, Cyngor Caerdydd
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Cefnogwyd y panel gan gynrychiolydd cyfreithiol o'r Bwrdd Diogelu.

**Y Digwyddiad Dysgu**
Cynhaliwyd digwyddiad dysgu rhithwir dros gyfnod o ddau ddiwrnod oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ar bresenoldeb yn y gweithle.

Yn bresennol yn y digwyddiad roedd:

- Addysg (gan gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd)
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Plant, Cyngor Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Tai a Chymunedau, Cyngor Caerdydd
- Barnardo's
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- Snap Cymru

**Cynnwys y Teulu**

Rhoddwyd cyfle i'r plant gwrdd ag adolygwr y AYP hwn. Roedd Plentyn A yn awyddus i wneud hyn i ddechrau ond yn ddiweddarach gwnaeth y penderfyniad i beidio â gwneud hynny. Nid oedd Plentyn B eisiau cymryd rhan yn hyn. Siaradodd Plentyn A â'u gweithiwr cymdeithasol ac roedd eisiau rhannu eu barn â'r panel.

Derbyniodd yr adolygiad hwn ddiweddariadau mewn perthynas â chynnydd y ddau blentyn ers iddynt ddechrau derbyn gofal. Mae'r ddau blentyn wedi aros yn yr un lleoliad maeth. Dywedir bod y plant wedi ffynnu.

Mae'r ddau blentyn bellach wedi symud i lety â chymorth/annibynnol ac yn parhau i dderbyn cymorth fel rhai sy'n gadael gofal.

☐ Gwrthododd y teulu gymryd rhan

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig**

Dyddiad derbyn yr wybodaeth ..........................

Dyddiad anfon y llythyr cydnabod at Gadeirydd y BDPRh

Dyddiad anfon at yr arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol ...........................

| Asiantaethau | Ie | Na | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |
| AGIC | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | |